***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 05/11/2013.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013, ATODLEN 5. (See end of Document for details)*

# ATODLEN 5

(a gyflwynir gan adran 58)

## DARPARIAETHAU TROSIANNOL A DARFODOL AC ARBEDION

### *Ceisiadau am drwyddedau safle sydd yn yr arfaeth*

1 Mae cais am drwydded safle o dan Ddeddf Safleoedd Carafannau a Rheoli Datblygu 1960 o ran safle rheoleiddiedig sydd wedi ei wneud i awdurdod lleol, ond sydd heb ei benderfynu ganddo, cyn i Ran 2 ddod i rym i'w drin ar ôl i'r Rhan honno ddod i rym fel cais i awdurdod lleol am drwydded safle o dan y Rhan honno o ran y safle rheoleiddiedig.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. 5 para. 1 mewn grym ar 5.11.2013, gweler **a. 64(1)**

### *Parhau trwyddedau safle presennol am y tro*

2 (1) Nid yw dod â Rhan 2 a pharagraff 1(2) o Atodlen 4 i rym yn effeithio ar barhad gweithredu darpariaethau Deddf Safleoedd Carafannau a Rheoli Datblygu 1960 o ran trwyddedau safle sy'n parhau mewn grym o dan y paragraff hwn.

(2) Mae trwydded safle o dan Ddeddf Safleoedd Carafannau a Rheoli Datblygu 1960 sydd mewn grym pan ddaw Rhan 2 i rym o ran safle rheoleiddiedig yn parhau mewn rym tan ddiwedd y cyfnod cychwynnol oni bai—

(a) ei bod yn cael ei dirymu yn ystod y cyfnod cychwynnol, neu

(b) bod cais am drwydded safle o ran y safle rheoleiddiedig o dan Ran 2 wedi ei wneud yn ystod y cyfnod cychwynnol.

(3) Os dirymir y drwydded safle o dan Ddeddf Safleoedd Carafannau a Rheoli Datblygu 1960 yn ystod y cyfnod cychwynnol mae'n parhau mewn grym hyd nes iddi gael ei dirymu.

(4) Os gwneir cais am drwydded safle o ran y safle rheoleiddiedig o dan Ran 2 yn ystod y cyfnod cychwynnol, mae'r drwydded safle o dan Ddeddf Safleoedd Carafannau a Rheoli Datblygu 1960 yn parhau mewn grym hyd nes iddi gael ei therfynu (boed yn ystod y cyfnod cychwynnol ynteu ar ôl diwedd y cyfnod cychwynnol).

(5) Yn y paragraff hwn a pharagraff 3, ystyr "y cyfnod cychwynnol" yw' cyfnod o 6 mis sy'n dechrau â'r diwrnod y daw Rhan 2 i rym.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** Atod. 5 para. 2 mewn grym ar 5.11.2013, gweler **a. 64(1)**

### *Amser i benderfynu ar drwydded safle*

3 Pan wneir cais am drwydded safle o ran safle rheoleiddiedig o dan Ran 2 cyn diwedd y cyfnod cychwynnol ac ar adeg pan fo trwydded safle o dan Ddeddf Safleoedd Carafannau a Rheoli Datblygu 1960 mewn grym o ran y safle rheoleiddiedig, mae adran 7(2) yn effeithiol o ran y cais fel pe bai "2 fis" wedi ei ddisodli gan "6 mis".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** Atod. 5 para. 3 mewn grym ar 5.11.2013, gweler **a. 64(1)**

*Parhau'r safonau enghreifftiol presennol*

4 Mae unrhyw safonau enghreifftiol a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adran 5(6) o Ddeddf Safleoedd Carafannau a Rheoli Datblygu 1960 sydd mewn grym yn union cyn i Ran 2 ddod i rym yn effeithiol ar ôl yr amser hwnnw (hyd nes eu disodli) fel pe baent wedi eu gwneud o dan adran 10.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I4** Atod. 5 para. 4 mewn grym ar 5.11.2013, gweler **a. 64(1)**

*Dirymu cyn cychwyn*

5 Mae'r cyfeiriad yn adran 7(5) at ddirymu trwydded safle o dan adran 18 neu 28 yn cynnwys dirymu trwydded safle o dan Ddeddf Safleoedd Carafannau a Rheoli Datblygu 1960 o dan adran 9 o'r Ddeddf honno.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I5** Atod. 5 para. 5 mewn grym ar 5.11.2013, gweler **a. 64(1)**

*Troseddau cyn cychwyn i gyfrif at ddibenion penodol*

6 Mae'r cyfeiriad yn is-adran (4)(b) o adran 18 at y trosedd o dan is-adran (1) o'r adran honno yn cynnwys trosedd o dan adran 9 o Ddeddf Safleoedd Carafannau a Rheoli Datblygu 1960 o ran trwydded safle o dan y Ddeddf honno o ran yr un tir.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I6** Atod. 5 para. 6 mewn grym ar 5.11.2013, gweler **a. 64(1)**

*Erlyn troseddau cyn cychwyn*

7 Nid oes dim mewn unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf hon yn effeithio ar weithredu unrhyw ddeddfiad o ran troseddau a gyflawnwyd cyn i'r ddarpariaeth honno ddod i rym.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I7** Atod. 5 para. 7 mewn grym ar 5.11.2013, gweler **a. 64(1)**

***Statws*** *Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 05/11/2013.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013, ATODLEN 5. (See end of Document for details)*

*Hen ddarpariaethau trosiannol ac arbedion*

8 Mae i unrhyw ddarpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed sy'n ymwneud â dod ag unrhyw ddarpariaeth a ailddeddfir yn y Ddeddf hon i rym a all fod yn effeithiol o ran y ddarpariaeth fel y'i hailddeddfir yr un effaith o ran y ddarpariaeth fel y'i hailddeddfir ag a oedd iddi o ran y ddarpariaeth y mae'n ei hailddeddfu.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I8** Atod. 5 para. 8 mewn grym ar 5.11.2013, gweler **a. 64(1)**

*Lleihad dros dro yn y gosb uchaf am drosedd neillog a brofir yn ddiannod*

9 Yn achos trosedd a gyflawnwyd cyn i adran 154(1) o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 ddod i rym, mae adran 43(3)(a) yn effeithiol fel pe bai "12 mis" wedi ei ddisodli gan "6 mis".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I9** Atod. 5 para. 9 mewn grym ar 5.11.2013, gweler **a. 64(1)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 05/11/2013.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013, ATODLEN 5.